RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 29 Mawrth 2023 am 4.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd B Stephens |
| Y Cynghorydd L Addiscott | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd J Cook | Y Cynghorydd A Crimmings |
| Y Cynghorydd R Davis | Y Cynghorydd V Dunn |
| Y Cynghorydd E L Dunning | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd L Ellis |
| Y Cynghorydd S Emanuel | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd B Harris | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd G O Jones | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd C Lisles |
| Y Cynghorydd C Middle | Y Cynghorydd A Morgan |
| Y Cynghorydd N H Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd S Rees | Y Cynghorydd J Smith |
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd L A Tomkinson |
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd K Webb |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd R Yeo |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S J Davies |
| Y Cynghorydd A J Ellis | Y Cynghorydd P Evans |
| Y Cynghorydd R Evans | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd H Gronow | Y Cynghorydd G Hopkins |
| Y Cynghorydd W Hughes | Y Cynghorydd M Maohoub |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd D Owen-Jones |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd D Parkin |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd G E Williams |
| Y Cynghorydd R Williams | Y Cynghorydd D Wood |
| | Y Cynghorydd D Evans |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Grŵp Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J Barton | Y Cynghorydd P Binning |
| Y Cynghorydd A Dennis | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd S Hickman | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd C Preedy | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd T Williams | |

## 93 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Cynghorydd y fwrdeistref sirol S.A. Bradwick – "Rwy'n Gadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac rwyf wedi agor gorsafoedd lle mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi'i lleoli."

Cynghorydd y fwrdeistref sirol C Middle – "A minnau'n filwr wrth gefn, mae'n bosibl y bydda i'n gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru."

Cynghorydd y fwrdeistref sirol G Hopkins – "Rwy'n aelod o Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg."

**(Noder**: Cafodd y buddiant canlynol ei ddatgan yn ddiweddarach yn ystod y cyfarfod:

Cynghorydd y fwrdeistref sirol K Morgan – "Rwy'n cael fy nghyflogi gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.")

## 94 Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Cyflwynodd y Llywydd gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a dywedodd wrth yr Aelodau y byddan nhw'n ymdrin ag eitemau yn ôl trefn yr agenda.

Cyflwynodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Mr Jason Killens ei hun a'i gydweithiwr Ms Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu. Gyda chymorth sleidiau PowerPoint cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o faterion allweddol o dan y penawdau canlynol:

- Adolygiad o restr ddyletswyddau'r gwasanaethau meddygol brys

- Sesiynau gwybodaeth i uwch-randdeiliaid

- Cwm Taf Morgannwg (gan gynnwys Rhondda Cynon Taf)
    - Crynodeb gweithredol
    - Data o ran galw a rhagolygon
    - Gwaith ymgysylltu helaeth â staff
    - Effaith ar staff
    - Diogelwch cleifion
    - Deilliannau clinigol
    - Manteision clinigol Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU)
    - Cyflawniad ansawdd a data
    - Gwasanaethau meddygol brys
    - Digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion
    - Cefndir
    - Gwasanaethau meddygol brys – Adolygiad o alw a chapasiti
    - Canfyddiadau'r adolygiad
    - Newid y rhestr ddyletswyddau
    - CTM
    - Edrych i'r dyfodol

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor ddiolch i gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am eu cyflwyniad ac am fynychu cyfarfod y Cyngor ar-lein. Rhoddodd ddiolch hefyd i'r gwasanaethau a'u staff am eu hymroddiad yn ystod y pandemig.

Holodd yr Arweinydd am neilltuo, gan gyfeirio at gyfnod pan oedd gyda'r sir yr amseroedd ymateb gwaethaf o ran ambiwlansys yng Nghymru gyfan. Roedd yr ystadegau'n profi na fyddai ambiwlansys a oedd yn cael eu galw i ardaloedd eraill y tu allan i'r fwrdeistref sirol i fynychu digwyddiad yn dychwelyd i'r sir. Roedd hyn yn golygu bod ymateb y sir yn wael. Gofynnodd yr Arweinydd pryd ddaeth y neilltuo i ben?

Soniodd yr Arweinydd hefyd am ei sgyrsiau diweddar â staff ambiwlans yn ystod ei ymweliad â'r llinellau piced. Roedden nhw wedi codi pryderon ynghylch newid o'r cerbydau ymateb brys i'r cerbydau CHARU a'r mathau o alwadau roedden nhw'n ymdrin â nhw. Roedd lles staff hefyd wedi'i drafod mewn perthynas â newidiadau i'r rotâu ac achosion pan nad yw staff ambiwlans yn gallu gadael eu sifftiau ar amser. Yn aml maen nhw'n gorfod aros oriau lawer i gael eu rhyddhau o'u dyletswyddau. Er gwaethaf ymrwymiad y staff i ddiogelwch cleifion, roedd hyn yn bryder i lawer.

Gofynnodd yr Arweinydd am eglurhad ynghylch yr anallu i gyrraedd y targed ar gyfer galwadau categori coch. Gofynnodd i'r Prif Weithredwr a oedd y fwrdeistref sirol yn debygol o gael gwasanaeth ambiwlans diogel a dibynadwy.

Ymatebodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i'r materion a godwyd. Gwnaeth sylwadau ar y rhwystredigaeth o golli traean o'r cerbydau i oedi yn yr adran achosion brys pan nad oes modd i gleifion, sy'n iach yn feddygol i'w rhyddhau, adael yr ysbyty oherwydd y diffyg gofal cymdeithasol neu resymau eraill sydd o fewn rheolaeth y Bwrdd Iechyd. Roedd hefyd wedi cydnabod y canlyniadau o ran atal staff rhag gorffen sifftiau a chymryd seibiannau ar amser.

Dywedodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans

Cymru fod buddsoddiad wedi bod, a bod y criwiau ambiwlans wedi cynyddu 400 dros y tair i bedair blynedd diwethaf. Serch hynny, mae 253 o'r rheiny wedi lleihau'r diffyg strwythurol, ac mae 100 o staff wedi'u hariannu'n achlysurol gan y llywodraeth yn ystod y flwyddyn galendr ddiwethaf. Ychwanegodd fod gweithgarwch yn y categori coch wedi dyblu, ac mai colli'r cerbydau yw'r brif reswm am yr anallu i ymateb i alwadau yn y gymuned a pham nad oes modd i staff orffen eu sifftiau ar amser a chymryd egwyl. Ychwanegodd hefyd fod y dulliau o gyflawni newid y tu hwnt i'w reolaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod cael gwasanaeth ambiwlans cenedlaethol sy'n cyrraedd y targedau'n rheolaidd ar gyfer galwadau categori coch ac sydd ag amseroedd ymateb rhesymol ar gyfer categorïau eraill ymhell yn y dyfodol. Ychwanegodd fod yna gynlluniau uchelgeisiol i newid y model darparu gwasanaeth ond mae hefyd angen newid sylweddol yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn ymateb i weithgarwch, i ddarparu mwy o gyngor i uwch glinigwyr ac i allu anfon clinigwr arbenigol i gleifion yn y gymuned, a hynny'n gyflym ac ar bob achlysur. Wrth ymateb i achosion o neilltuo, dywedodd y Prif Weithredwr fod yna heriau sy'n atal ambiwlans rhag gyrru heibio i glaf y mae angen ymateb iddyn nhw. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau nad yw neilltuo yn digwydd nawr.

Dywedodd Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd K Morgan fod y cynnydd yn nifer y galwadau categori coch yn peri pryder. Gofynnodd a oes modd darparu amserlen bendant o ran pryd y bydd gwasanaeth CHARU yn cael popeth y mae ei angen o ran adnoddau. Cododd Arweinydd yr Wrthblaid gwestiwn ynghylch rôl yr awdurdod lleol. Gofynnodd a oes modd i'r awdurdod helpu o ran y pwysau ar ysbytai sy'n effeithio ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Gofynnodd hefyd a oes modd i'r Ymddiriedolaeth ymwneud mwy â'r cynllun rhyddhau cleifion ar lefel yr awdurdod lleol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod hanner gwasanaeth CHARU yn weithredol. Mae angen cyllid ar yr hanner arall, ac mae tua 100 o swyddi sydd heb gael eu hariannu hyd yma. Ychwanegodd fod rhwng 30 a 40 yn fwy o ambiwlansys ar ddyletswydd bob dydd ar adegau prysur o ganlyniad i'r newidiadau i'r rhestr ddyletswyddau. Mae hyn yn cyfateb i 170 o ambiwlansys ar gael, sy'n cynyddu'r capasiti. Dywedodd y bydd cynnydd yn y gweithgarwch categori coch dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gyfradd uwch o gleifion hŷn. Bydd angen mwy o ymyrraeth arnyn nhw gan y gwasanaethau gofal brys. Yn wyneb hyn, ychwanegodd fod angen newidiadau i'r model darparu gwasanaeth, gyda'r achosion llai difrifol ac acíwt yn cael eu trin yn y gymuned er mwyn rhyddhau'r pwysau ar yr adrannau brys. Dywedodd hefyd fod enghreifftiau o waith da yn bodoli mewn lleoliadau acíwt megis yng Nghaerdydd. Yno maen nhw wedi canolbwyntio ar leihau'r oedi wrth drosglwyddo i adrannau achosion brys wedi sicrhau gwelliant sylweddol. Byddai modd ailadrodd hyn mewn safleoedd eraill.

Wrth ymateb i'r ymholiad cynharach mewn perthynas â gweithio'n well gyda'r awdurdodau lleol, dywedodd Ms Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaeth ac Ymgysylltu nad yw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghwm Taf Morgannwg ar hyn o bryd. Nid yw chwaith yn dod o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sef y prif gyfrwng ar gyfer llywio'r dull partneriaeth integredig. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio hyn wrth gynnal ymgynghoriad. Bydd hyn yn ystyried sefydliadau ychwanegol, ac mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn un ohonyn nhw. Roedd o'r farn y byddai hyn yn cynnig cyfle ychwanegol i gydweithio ag awdurdodau lleol, a phartneriaid eraill yng Nghwm Taf Morgannwg i chwalu rhai

o'r ffiniau presennol rhwng sefydliadau.

Rhoddodd Arweinydd Grŵp Annibynnol Rhondda Cynon Taf, y Cynghorydd M Powell sylw am well ymgysylltu pe bai'r Aelodau wedi gallu gweld y cyflwyniad PowerPoint cyn y cyfarfod. Holodd ynghylch niferoedd goroesi a rhyddhau cleifion ar gyfer y fwrdeistref sirol. Gofynnodd hefyd a oedd y model y cyfeiriwyd ato yng Nghaerdydd wedi'i rannu â Byrddau Iechyd eraill megis Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg?

Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Ceidwadol, y Cynghorydd S Trask, a fydd parafeddygon CHARU yn creu bwlch strwythurol pellach o fewn y gwasanaeth. Hefyd, gofynnodd am ba gynlluniau sydd ar waith ar gyfer cadw staff, a hynny yn wyneb staff rheng flaen yn gadael y gwasanaeth yn gyfan gwbl.

Ymatebodd y Prif Weithredwr fod rhywfaint o gynnydd wedi bod yn nifer y staff sy'n gadael y gwasanaeth rheng flaen. Mae hyn yn bennaf i ymuno â meysydd eraill o fewn y gwasanaeth iechyd neu'r sector preifat, a hynny oherwydd y cynnydd o ran cyflog, neu oherwydd eu profiad yn y gweithle ar hyn o bryd. O ran arfer gorau, cadarnhaodd ei fod wedi'i nodi a'i rannu'n uniongyrchol, ond ei fod yn fater i'r Bwrdd Iechyd ei fabwysiadu. Gan orffen, dywedodd fod modelau cyfredol yn cael eu hystyried i ganfod a yw'n well, yn absenoldeb cyllid pellach, lleihau nifer yr ambiwlansys brys ar gyfer cerbydau CHARU ychwanegol, neu a ddylid cynnal y lefelau presennol. Ychwanegodd y gallai'r olaf o bosibl greu diffyg mewn mannau eraill.

Croesawodd yr Arweinydd y cyfle i ymwneud ymhellach ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i drafod gweithio ar y cyd a chefnogaeth awdurdodau lleol. Ychwanegodd mai ffigurau Rhondda Cynon Taf ar gyfer oedi wrth ryddhau cleifion yw'r gorau yng Nghymru, er bod yr Arweinydd wedi nodi rhai meysydd o bryder megis neilltuo ambiwlansys a'r cynnydd yn nifer y galwadau categori coch a oedd yn cyfiawnhau trafodaethau pellach.

Rhoddodd yr Aelod llywyddol ddiolch i gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, gan ddweud bod modd anfon unrhyw gwestiynau pellach at Uned Busnes y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**